



Tystysgrif Lefel Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg

B2

Mae'r cymhwyster hwn yn cyfateb â lefel B2 yn
Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR)

I'w ddyfarnu o 2017

MANYLEB



TYSTYSGRIF LEFEL UWCH MEWN CYMRAEG AIL IAITH: DEFNYDDIO'R GYMRAEG

MANYLEB

i'w ddyfarnu o Haf 2017

Mae'r cymhwyster hwn ar lefel B2 yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR). Rheoleiddir y cymhwyster hwn gan Gymwysterau Cymru, ac nid yw ar gael i ganolfannau yn Lloegr. Mae'r cymhwyster hwn yn cydymffurfio â gofynion Amodau Cyffredinol Cydnabyddiaeth Gymwysterau Cymru.

	Tudalen
Cynnwys	
Crynodeb o'r Asesiad	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Nodau ac amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Gwaharddiadau a gorgyffwrdd	4
1.4 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
2. Cynnwys y pwnc	5
2.1 Gwranddo	7
2.2 Siarad	8
2.3 Darllen	10
2.4 Ysgrifennu	11
2.5 Gwybodaeth o iaith	12
3. Asesu	
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	13
4. Gwybodaeth dechnegol	14
4.1 Cofrestru	14
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	14
4.3 Disgrifiadau cyrhaeddiad	14
Atodiad A	Gridiau Asesu Siarad
Atodiad B	Grid Asesu Ysgrifennu
Atodiad C	Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR)
	16
	18
	19

Crynodeb o'r Asesiad

Manyleb linol yw hon, ac asesiadau pen tymor sydd i'r cymhwyster. Mae'r cyfle i sefyll yr arholiad ar ddiwrnodau penodol yn yr haf bob blwyddyn. Asesir y cyfan yn allanol.

1.	Gwrando	15% o'r cymhwyster
<i>Prawf gwrando a deall</i>		
<ul style="list-style-type: none"> - Gwybodaeth ffeithiol - Profiadau personol - Trafodaeth 		
2.	Siarad	45% o'r cymhwyster
<i>Tasgau trafod</i>		
2 dasg wedi'u recordio ymlaen llaw		
<i>Prawf siarad</i>		
<ul style="list-style-type: none"> - Erthygl - Hunanbortread - Pwnc llosg - Siarad o brofiad 		
3.	Darllen	15% o'r cymhwyster
<i>Prawf darllen a deall</i>		
<ul style="list-style-type: none"> - Darn ffuglen - Llythyrau ffurfiol 		
4.	Ysgrifennu	15% o'r cymhwyster
<i>Prawf ysgrifennu</i>		
<ul style="list-style-type: none"> - Llythyr yn y cywair ffurfiol - Erthygl neu adolygiad 		
5.	Gwybodaeth o iaith	10% o'r cymhwyster
<i>Prawf gwybodaeth o iaith</i>		
<ul style="list-style-type: none"> - Aralleirio - Dewis y ffurf gywir - Llenwi bylchau 		

Rhif Achredu'r Cymhwyster:

100/2299/5

Rhif dynodi Cymwysterau Cymru:

C00/0077/7

1. Rhagarweiniad

1.1 Nodau ac amcanion

Anelir arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Uwch at oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r arholiad yn benllanw astudio'r Gymraeg mewn dosbarthiadau am 2-4 blynedd neu fwy, yn dilyn y lefel flaenorol, sef Canolradd.

Amcangyfrifir bod angen tua 360 o oriau dan arweiniad tiwtor i gyrraedd y safon hon (yn dilyn lefel Canolradd) yn ogystal â chyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae hyn yn dibynnu ar yr ymgeisydd unigol, ei wybodaeth flaenorol o'r iaith a'r cyfleoedd y mae'n manteisio arnynt i ymarfer.

Mae'r arholiad yn rhan o gyfres Defnyddio'r Gymraeg, ac yn ddilyniant i arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd. Bydd yn cymhwyso dysgwyr i astudio ar gyrsiau Addysg Bellach neu Addysg Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Mae'n bosibl i ymgeiswyr sydd wedi dysgu'n annibynnol sefyll yr arholiad, ond rhaid cofrestru trwy ganolfan sydd wedi ei chymeradwyo i ddarparu arholiadau Cymraeg i Oedolion.

Nid yw'r cymhwyster hwn yn gynnwysedig yn nhariff UCAS.

Nod y cymhwyster yw rhoi arweiniad i gyflogwyr a darpar gyflogwyr am sgiliau Cymraeg y dysgwr, ac i roi meincnod i'r dysgwr ei hun o'i hyfedredd yn y Gymraeg. Dylai ymgeisydd llwyddiannus allu cyfathrebu ag eraill mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Rhoddir pwyslais mawr ar sgiliau llafar (siarad a gwranddo), ac mae'r testunau a'r themâu'n addas i oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae hyn yn ei wneud yn wahanol i gymwysterau eraill ar y lefel hon.

Mae'r cymhwyster yn cyfateb i lefel B2 yn Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR), ac ar Lefel 3 o fewn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Fe'i rheoleiddir gan Gymwysterau Cymru ac mae'n cwrdd â gofynion yr Amodau Cydnabyddiaeth Cyffredinol.

Mae'r cymhwyster hwn yn annog dysgwyr:

- i wrando ar destunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r siaradwyr ac adnabod ffeithiau arwyddocaol;
- i siarad Cymraeg yn rhugl ac yn gywir wrth drafod testunau a themâu gwahanol, gan gynnwys rhaglenni, ffilmiau neu lyfrau a phynciau haniaethol cymhleth;
- i ymateb ar lafar i gwestiynau treiddgar am gefndir ac am brofiad penodol yn y gorffennol yn rhugl ac yn gywir;
- i grynhoi testun cymhleth ar lafar;
- i siarad am bwnc llosg gan bwysu a mesur dadleuon gwahanol;
- i ddarllen testunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan gynnwys Cymraeg llenyddol a Chymraeg ffurfiol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r awduron ac adnabod ffeithiau arwyddocaol;
- i ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn y cywair priodol, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa at ddibenion penodol;
- i gymhwyso gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg, gan gynnwys ffurfiau amgen, ffurfiau lluosog, priod-ddulliau, arddodiaid, cyfleoliadau, treigladau, sillafu, amserau berfau a dealltwriaeth o gyd-destun.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes rhaganghenion ar gyfer gweithio tuag at y cymhwyster hwn, ond bydd llawer o ddysgwyr wedi sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd. Mae hon yn rhan o gyfres o arholiadau penodol i faes Cymraeg i oedolion. Fodd bynnag, nid oes *rhaid* i ymgeiswyr fod wedi sefyll arholiad ar lefel is yn y gyfres cyn sefyll yr arholiad hwn.

1.3 Gwaharddiadau a gorgyffwrdd

Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll arholiadau TAG Uwch Gyfrannol / Uwch Cymraeg, neu Gymraeg Ail iaith, yn yr un flwyddyn. Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, neu sydd wedi derbyn y rhan helaethaf o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg sefyll yr arholiad hwn, onid ydynt wedi gadael yr ysgol ers pum mlynedd neu fwy.

1.4 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr astudio'r fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw, ei gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, (lle bo'n bosibl) nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddo nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac fe'i hadolygir yn gyson.

Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC.

2. Cynnwys

Mae Defnyddio'r Gymraeg: Uwch yn benllanw cyfres o gymwysterau, ac mae'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar y lefelau is yn gynnwysedig yn y lefel Uwch.

Ceir manylion a chyfarwyddyd manwl am gynnwys *ieithyddol* a fyddai'n ddefnyddiol wrth baratoi i sefyll yr arholiad hwn yn y llyfrau cwrs 'Uwch' neu 'Meistrolï' a ddefnyddir ym maes Cymraeg i Oedolion. Datblygwyd fersiynau amrywiol mewn canolfannau gwahanol. Bydd y llyfrau hyn yn rhoi arweiniad ac arwydd i diwtoriaid ac ymgeiswyr o'r patrymau a'r eirfa a fyddai'n ddefnyddiol wrth baratoi i sefyll y profion.

Ni wahaniaethir rhwng y tafodieithoedd yn y profion hyn, er y ceisir sicrhau bod y testunau goddefol (gwrando a darllen) yn cynnwys amrywiaeth o acenion a thafodieithoedd.

Isod, ceir rhestr gyfair o'r wybodaeth a'r dealltwriaeth angenrheidiol, ynghyd â'r sgiliau y dylai ymgeiswyr eu hymarfer wrth baratoi i sefyll y profion:

Gwybodaeth a dealltwriaeth

I ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r isod:

- holl brif strwythurau'r Gymraeg
- amrediad eang o briod-ddulliau, tafodieithoedd a chyfleoliadau'r Gymraeg
- amrediad o eirfâu ac ymadroddion amgen er mwyn cyfleu arlliwiau ystyr gwahanol
- cyweiriau ffurfiol, llenyddol ac anffurfiol

Sgiliau

Gwrando

Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:

- deall cyweiriau amrywiol
- deall tafodieithoedd amrywiol
- casglu beth yw bwriad siaradwr
- casglu beth yw prif bwynt(iau) darn
- deall mathau gwahanol o ddisgwrs, e.e. darlithiau ffeithiol, trafodaethau, cyfweliadau
- deall safbwyntiau mewn trafodaeth ar gyflymdra naturiol
- adnabod ffeithiau arwyddocaol mewn darn estynedig
- deall trafodaethau'n ymwneud â phynciau cymhleth, haniaethol
- deall rhaglenni radio neu deledu Cymraeg ac ymateb iddynt

Siarad

Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:

- siarad am brofiad neu ddisgrifio'n estynedig
- mynegi safbwynt a chyfleu safbwyntiau eraill
- siarad yn gydlynus wrth gyflwyno hanes, profiad neu ddigwyddiad
- cefnogi safbwyntiau â phrofiad neu enghreifftiau perthnasol
- gwerthuso dewisiadau gwahanol, e.e. manteision/anfanteision, rhesymau o blaid/yn erbyn
- trosglwyddo gwybodaeth gymhleth a haniaethol yn gywir
- arwain trafodaeth gan ofyn cwestiynau treiddgar
- trafod rhaglen deledu/radio, ffilm, drama neu lyfr â siaradwr rhugl
- siarad yn rhugl ac yn gywir heb gyfyngu ar yr hyn sydd ganddo/ganddi i'w ddweud

Darllen

Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:

- darllen er mwyn cael hyd i wybodaeth ffeithiol neu arwyddocaol
- darllen er mwyn adnabod safbwynt neu farn
- darllen mathau gwahanol o destunau ar bynciau cymhleth a haniaethol
- darllen naratif llenyddol gan ddilyn llinynnau storiol cymhleth
- darllen testunau mewn cyweiriau a thafodieithoedd amrywiol

Ysgrifennu

Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu:

- ysgrifennu'n estynedig
 - ysgrifennu disgrifiadau clir a manwl o ddiwyddiadau neu brofiadau
 - ysgrifennu yn y cywair priodol, e.e. llythyr ffurfiol
 - ysgrifennu erthygl neu adolygiad sy'n datblygu dadl yn drefnus, gan amlygu pwyntiau a chan roi rhesymau o blaid/yn erbyn, neu sôn am fanteision neu anfanteision
-
- dangos dealltwriaeth o brif strwythurau'r Gymraeg a'u defnyddio'n gynhyrchiol
 - deall priod-ddulliau, tafodieithoedd, cyfleoliadau'r Gymraeg, a'u defnyddio'n gynhyrchiol
 - dewis patrymau neu eirfâu amgen er mwyn cyfleu arlliwiau ystyr gwahanol
 - hunanfonitro a chywiro camgymeriadau

2.1 Gwrando 60 marc

Nod y gydran hon yw mesur sgiliau gwrando a deall yr ymgeiswyr.

Anogir darpar ymgeiswyr i wrando ar raglenni Cymraeg ar Radio Cymru a gwylio rhaglenni Cymraeg ar S4C er mwyn ymarfer ar gyfer y prawf hwn. Gall cynnwys y darnau fod o ddiddordeb cyffredinol neu o natur led arbenigol, a gall y mynegiant fod yn dafodieithol neu'n ffurfiol ei gywair. Bydd y prawf fel arfer yn para tua 45-50 munud, yn dibynnu ar hyd y darnau a ddefnyddir.

Prawf Gwrando

Bydd y tasgau ar CD i'w chwarae ar ddiwrnod yr arholiad. Bydd cyfle i edrych ar y cwestiynau ar y dechrau, i glywed y darnau ddwy waith gyda bylchau rhwng y gwrandawiadau. Caniateir i'r ymgeiswyr ysgrifennu yn ystod y gwrandawiadau, os dymunant wneud hynny.

Nid asesir cywirdeb orgraffyddol na gramadegol yr ymatebion, ond disgwylir i'r ymgeiswyr ymateb mewn ffordd sy'n dangos dealltwriaeth, lle bo angen atebion byrion. Rhaid i'r atebion fod yn Gymraeg, ac ni chaniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio geiriadur yn ystod y prawf.

Bydd 15 eitem yn y prawf a thair rhan, fel a ganlyn:

Rhan 1 – Gwybodaeth ffeithiol 16 marc

Bydd y darn hwn yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol, e.e. eitem newyddion neu nodwedd estynedig. Rhaid i'r ymgeisydd ateb cwestiynau er mwyn profi dealltwriaeth o ffeithiau arwyddocaol yn y darn. Atebion byrion a ddisgwylir yn y rhan hon.

Rhan 2 – Profiadau personol 20 marc

Bydd y darn hwn yn cynnwys unigolyn yn siarad am brofiadau personol. Rhaid i'r ymgeisydd ateb cwestiynau er mwyn profi dealltwriaeth o ffeithiau arwyddocaol a byrdwn y sgwrs. Atebion byrion a ddisgwylir yn y rhan hon.

Rhan 3 – Trafodaeth 24 marc

Bydd y darn hwn yn cynnwys trafodaeth rhwng dau neu dri. Rhaid i'r ymgeisydd ddewis y brawddegau cywir i brofi dealltwriaeth o safbwyntiau'r siaradwyr ac agweddau gwahanol ar y pwnc dan sylw.

2. **Siarad** 180 marc

Tasgau Trafod 60 marc

2 dasg drafod wedi'u recordio ymlaen llaw.

Dylai'r tasgau bara tua 10 munud yr un, rhwng yr ymgeisydd a siaradwr rhugl.

Rhaid cyflwyno'r tasgau drwy'r ganolfan arholi, (nid i CBAC yn uniongyrchol), erbyn dyddiad cau penodol yn y flwyddyn y mae'n bwriadu sefyll yr arholiad (ar wefan CBAC). Bydd y ganolfan yn llwytho'r tasgau i'r wefan ddiogel. Rhaid cyflwyno ffeiliau sain electronig gan ddefnyddio fformat mp3.

(a) Trafod unrhyw lyfr, ffilm, drama neu raglen Gymraeg

(b) Trafod unrhyw agwedd ar yr iaith neu'r diwylliant Cymraeg

Gellir recordio Tasg (a) gydag unrhyw siaradwr rhugl, gan gynnwys tiwtor yr ymgeisydd, ond rhaid recordio Tasg (b) gyda siaradwr rhugl nad yw'n diwtor cyfredol ar yr ymgeisydd. Ni ddylid ceisio sgriptio'r trafodaethau ymlaen llaw, ac ni ddylid mynd dros 11 munud. Does dim gwahaniaeth pa agweddau ar y llyfr/ffilm/drama/rhaglen a drafodir, na pha agwedd ar yr iaith na'r diwylliant Cymraeg a drafodir, ond yr ymgeisydd ddylai lywio'r drafodaeth a'r ymgeisydd ddylai siarad am y rhan fwyaf o'r amser. Dyma rai enghreifftiau posibl o destunau trafod Tasg (b): trafod profiad o weithio neu wirfoddoli trwy'r Gymraeg; trafod profiad o fod yn aelod o glwb neu gymdeithas Gymraeg; trafod materion yn ymwneud â'r iaith yn yr ysgol leol; trafod profiad yn ymwneud ag eisteddfod neu achlysur diwylliannol arall.

Prawf Siarad 120 marc

Hyd y prawf: tua 30 munud

Bydd pob ymgeisydd yn cael cyfweiliad llafar unigol â chyfwelydd nad yw'n ei adnabod a bydd pob cyfweiliad yn cael ei recordio a'i asesu'n allanol. Bydd y prawf yn para tua 30 munud, a bydd cyfnod paratoi o 50 munud. Yn ystod y cyfnod paratoi, bydd gan yr ymgeisydd hawl i ddefnyddio geiriadur. Gall yr ymgeisydd ysgrifennu nodiadau ar daflen yr ymgeisydd a mynd â'r daflen i'r ystafell gyfweled, ond ni ddylai geisio sgriptio ei ymatebion.

Rhan 1 – Erthygl 30 marc

Bydd yr ymgeisydd yn derbyn erthygl ysgrifenedig ar daflen yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod paratoi. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau penodol i brofi a yw'r ymgeisydd wedi deall prif bwntiau'r erthygl. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio ei eiriau ei hun cyhyd â phosibl yn hytrach na chodi brawddegau'n gyfan o'r testun.

Rhan 2 – Hunanbortread 20 marc

Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno hunanbortread ysgrifenedig i'w drafod yn y prawf. Rhaid cyflwyno'r darn drwy'r ganolfan arholi, nid i CBAC yn uniongyrchol, erbyn dyddiad cau penodol yn y flwyddyn y mae'n bwriadu sefyll yr arholiad (ar wefan CBAC). Bydd y ganolfan yn llwytho'r darn i'r wefan ddiogel. Rhaid cyflwyno'r darn gan ddefnyddio fformat Word neu pdf.

Nid yw'r darn ysgrifenedig ei hun yn cael ei asesu, ond fe'i trosglwyddir i'r cyfwelydd i fod yn sail i ran gyntaf y prawf siarad. Gall y darn sôn am unrhyw agwedd ar gefndir yr ymgeisydd, e.e. gwaith, unrhyw ddiddordeb/au penodol. **Ni ddylai'r hunanbortread fod yn fwy na 300 o eiriau.**

Rhan 3 – Pwnc llosg

30 marc

Rhoddir dewis o ddau bwnc llosg ar daflen yr ymgeisydd. Rhaid i'r ymgeisydd drafod **un** o'r gosodiadau â'r cyfwelydd gan bwysu a mesur y dadleuon ar bob ochr. Bydd y pwnc llosg yn codi o un o'r meysydd isod:

- addysg
- yr amgylchedd
- chwaraeon
- diwylliant Cymru
- gwaith
- gwasanaethau
- iaith
- iechyd
- materion cyfoes
- technoleg
- teithio
- twristiaeth

Rhan 4 – Siarad o brofiad

30 marc

Mae dau sbardun ar daflen yr ymgeisydd yn holi am brofiadau penodol, gwahanol. Rhaid i'r ymgeisydd siarad am **un** o'r rhain â'r cyfwelydd.

Argraff

Dyfernir 10 marc 'Argraff' gan y marcwyr. Mae hyn yn gwobrwyo menter, dychymyg neu dreiddgarwch yn yr hyn a ddywedir gan yr ymgeisydd. Gweler Grid Asesu'r Prawf Siarad isod am fanylion.

3. **Darllen** 60 marc

Hyd y prawf: 60 munud

Nod y gydran hon yw mesur sgiliau darllen yr ymgeiswyr.

Anogir darpar ymgeiswyr i ddarllen cylchgronau a llyfrau Cymraeg o bob math er mwyn ymarfer ar gyfer y dasg hon. Bydd y darnau'n amrywiol eu cywair – Cymraeg llenyddol (a all fod yn dafodieithol iawn neu'n lled ffurfiol) a gohebiaeth ffurfiol.

Nid asesir cywirdeb orgraffyddol na gramadegol yr ymatebion, ond disgwylir i'r ymgeisydd ymateb mewn ffordd sy'n dangos dealltwriaeth, lle bo angen atebion byrion. Rhaid i'r atebion fod yn Gymraeg, ac ni chaniateir i'r ymgeisydd ddefnyddio geiriadur yn ystod y prawf.

Bydd 15 eitem yn y prawf a dwy ran, fel a ganlyn:

Rhan 1 – Darn ffuglen

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddarllen darn o ffuglen allan o nofel neu ddarn o ryddiaith, ac ateb cwestiynau'n seiliedig ar y darn. Eitemau amlddewis fydd y rhain, a fydd yn profi dealltwriaeth o'r darn ac o fwriadau'r awdur.

Rhan 2 – Llythyrau ffurfiol

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddarllen dau lythyr yn y cywair ffurfiol yn ymwneud â thema neu bwnc arbennig, ac ymateb i gwestiynau'n profi dealltwriaeth o'r testunau ac o safbwyntiau'r llythyrwyr.

4. **Ysgrifennu** 60 marc

Hyd y prawf: 90 munud

Nod y gydran hon yw profi sgiliau ysgrifennu'r ymgeiswyr. Mae dwy dasg ar y papur. Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriadur yn ystod y prawf.

Rhan 1 – Llythyr yn y cywair ffurfiol

Rhaid i'r ymgeisydd ysgrifennu llythyr yn y cywair ffurfiol ar sail sbardunau penodol. Rhaid i'r ymgeisydd ddewis un allan o ddwy dasg, gan ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

Rhan 2 – Erthygl neu adolygiad

Rhaid i'r ymgeisydd ysgrifennu adolygiad neu erthygl ar sail sbardunau penodol. Rhaid i'r ymgeisydd ddewis un allan o ddwy dasg, gan ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

5. **Gwybodaeth o iaith** 40 marc

Hyd y prawf: 60 munud

Nod y gydran hon yw profi gwybodaeth yr ymgeiswyr o ramadeg y Gymraeg mewn papur ysgrifenedig.

Rhan 1 – Aralleirio

Rhaid i'r ymgeisydd ailysgrifennu rhannau o frawddegau er mwyn profi gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg, gan gynnwys ffurfiau amgen, ffurfiau lluosog, a phriod-ddulliau.

Rhan 2 – Dewis y ffurf gywir

Rhaid i'r ymgeisydd ddewis o blith pedwar gair i lenwi bwloch mewn brawddeg. Mae'r rhan hon yn profi gallu'r ymgeisydd i adnabod camgymeriadau sy'n codi'n aml ar y lefel hon, gan gynnwys arddodiaid, cyfleoliadau, treigladau a sillafu.

Rhan 3 – Llenwi bylchau testun

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi bylchau mewn testun. Mae'r rhan hon yn profi dealltwriaeth yr ymgeisydd o gyd-destun, gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg gan gynnwys amserau berfau, treigladau a geirfa.

3. **Asesu**

3.1 **Amcanion asesu a phwysoli**

	Amcanion asesu	Pwysoli
AA1	<ul style="list-style-type: none"> • Profi bod ymgeisydd yn gallu gwrando ar destunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r siaradwyr ac adnabod ffeithiau arwyddocaol. 	15%
AA2	<ul style="list-style-type: none"> • Profi bod ymgeisydd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac yn gywir wrth drafod testunau a themâu gwahanol, gan gynnwys rhaglenni, ffilmiau neu lyfrau a phynciau cymhleth; • Profi bod ymgeisydd yn gallu ymateb i gwestiynau treiddgar am gefndir ac am brofiad penodol yn y gorffennol yn rhugl ac yn gywir; • Profi bod ymgeisydd yn gallu crynhoi testun cymhleth ar lafar; • Profi bod ymgeisydd yn gallu siarad am bynciau llosg gan bwysu a mesur dadleuon gwahanol. 	45%
AA3	<ul style="list-style-type: none"> • Profi bod ymgeisydd yn gallu darllen testunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan gynnwys Cymraeg llenyddol a Chymraeg ffurfiol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r awduron ac adnabod ffeithiau arwyddocaol. 	15%
AA4	<ul style="list-style-type: none"> • Profi bod ymgeisydd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn y cywair priodol, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa at ddibenion penodol. 	15%
AA5	<ul style="list-style-type: none"> • Profi gwybodaeth ymgeisydd o ramadeg y Gymraeg, gan gynnwys ffurfiau amgen, ffurfiau lluosog, priod-ddulliau, arddodiaid, cyfleoliadau, treigladau, sillafu, amserau berfau a dealltwriaeth o gyd-destun. 	10%

4. Gwybodaeth Dechnegol

4.1 Cofrestru

Rhaid i bob ymgeisydd (gan gynnwys ymgeiswyr preifat) gofrestru trwy un o'r canolfannau a gymeradwywyd gan CBAC i ddarparu'r cymwysterau Cymraeg i Oedolion. Rhaid cofrestru erbyn y dyddiad cau perthnasol. Nodir y dyddiad hwn ar wefan CBAC ac yn y llyfryn i ymgeiswyr. Un cyfle fydd yn ystod y flwyddyn i sefyll y profion, ac ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll y profion ar ddiwrnodau eraill. Cynhelir y profion dros ddau ddiwrnod yng nghanol mis Mehefin fel arfer. Gall ymgeiswyr sefyll yr arholiad fwy nag unwaith.

Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno'r gwaith cwrs (y tasgau trafod) i'r ganolfan berthnasol mewn da bryd. Dylid cyflwyno'r rhain yn y fformat electronig priodol (mp3) erbyn y dyddiad cau perthnasol. Nodir y dyddiad hwn ar wefan CBAC ac yn y llyfryn yr ymgeiswyr.

Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno'r 'Hunanbortread' (gw. dan Siarad) i'r ganolfan berthnasol mewn da bryd. Dylid cyflwyno'r rhain yn y fformat electronig priodol (Word neu pdf) erbyn y dyddiad cau perthnasol. Nodir y dyddiad hwn ar wefan CBAC ac yn y llyfryn i ymgeiswyr. Ni chaiff ymgeisydd sefyll y prawf Siarad oni fydd wedi cyflwyno Hunanbortread erbyn y dyddiad cau.

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron o gwbl, ac eithrio yn y cyfnod paratoi cyn y prawf Siarad. Bydd pob prawf yn cael ei farcio'n allanol.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Dyfernir tystysgrif CBAC i bob ymgeisydd sydd yn llwyddo yn y cymhwyster hwn. Y graddau a ddyfernir yw Rhagoriaeth neu Lwyddo.

Nid oes angen llwyddo mewn unrhyw gydran benodol i ennill y cymhwyster cyfan, a gall diffygion mewn un prawf gael eu cydbwysu gan ragoriaethau mewn profion eraill. Bydd llwyddo neu beidio'n dibynnu ar berfformiad yr ymgeisydd wedi ei fesur yn erbyn y disgrifyddion graddau.

Anfonir datganiad o'r marciau i'r canolfannau ar gyfer pob ymgeisydd. Mae'r datganiad yn nodi canlyniadau'r ymgeisydd ym mhob prawf, a'r cyfanswm allan o 400. Er mwyn llwyddo yn y cymhwyster, rhaid cyrraedd 240 fel arfer a 320 i gael Rhagoriaeth. Pennir yr union drothwyon yn y cyfarfod dyfarnu. Anfonir tystysgrifau'r ymgeiswyr i'r canolfannau ym mis Medi ar ôl yr arholiad.

4.3 Disgrifiadau Cyrhaeddiad

Rhagoriaeth

Er mwyn cael Rhagoriaeth, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu gwrando ar destunau cymhleth o fathau gwahanol mewn cyweiriau gwahanol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r siaradwyr, adnabod ffeithiau arwyddocaol a'u deall yn ddiraffferth. Rhaid dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac yn gywir, wrth drafod testunau amrywiol, cymhleth. Hefyd ar lafar, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu ymateb i gwestiynau treiddgar, crynhoi testun cymhleth, a siarad am bynciau llosg gan bwysu a mesur dadleuon gwahanol yn gwbl ddiraffferth. Wrth ddarllen, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu darllen testunau cymhleth amrywiol, gan gynnwys Cymraeg llenyddol a ffurfiol a'u deall yn rhwydd. Wrth ysgrifennu, rhaid dangos eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn gywir gan ddefnyddio ystod eang o gystrawennau a geirfa at ddiobenion penodol. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr ddangos gafael gadarn ar ramadeg y Gymraeg.

Llwyddo

Er mwyn Llwyddo, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu gwrandao ar destunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r siaradwyr ac adnabod ffeithiau arwyddocaol a deall y rhan fwyaf ohonynt. Rhaid dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn gywir gan amlaf heb lawer o oedi, wrth drafod testunau amrywiol, cymhleth. Hefyd ar lafar, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu ymateb i gwestiynau treiddgar, crynhoi testun cymhleth, a siarad am bynciau llosg gan bwyso a mesur dadleuon gwahanol yn dda. Wrth ddarllen, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu darllen testunau cymhleth amrywiol, gan gynnwys Cymraeg llenyddol a ffurfiol a deall y rhan fwyaf ohonynt. Wrth ysgrifennu, rhaid dangos eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn gywir gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa at ddibenion penodol. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth dda o ramadeg y Gymraeg.

Methu

Ni ellir dyfarnu cymhwyster i ymgeiswyr na fyddant yn cyrraedd y trothwy llwyddo.

Atodiad A

Gridiau Asesu Siarad

Grid Asesu'r Tasgau Trafod 60 marc

Tasgau Trafod	60 marc [2 dasg x 30 marc]
Cywirdeb	
8-10	siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson
6-7	siarad yn gywir gan amlaf
4-5	dweud rhai brawddegau cywir yn unig
0-3	siarad yn wallus, neu'r ynganu'n ymyrryd â dealltwriaeth
Rhuglder	
8-10	ei fynegi ei hun yn rhugl iawn ac â rhwyddineb
6-7	ei fynegi ei hun yn dda heb lawer o oedi
4-5	dangos peth rhuglder ar brydiau'n unig
0-3	heb fod yn siarad yn rhugl
Rhyngweithio	
8-10	holi siaradwr arall ac ymateb iddo'n gwbl ddiraffferth
6-7	holi siaradwr arall ac ymateb yn briodol
4-5	holi ac ymateb i raddau'n unig
0-3	holi ac ymateb yn elfennol, neu'n amlwg yn darllen sgript

Grid Asesu'r Prawf Siarad 120 marc

Rhan 1 – Erthygl	30 marc
Cywirdeb	
8-10	siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson
6-7	siarad yn gywir gan amlaf
4-5	dweud rhai brawddegau cywir yn unig
0-3	siarad yn wallus neu'r ynganu'n ymyrryd â dealltwriaeth
Rhuglder	
8-10	ei fynegi ei hun yn rhugl iawn ac â rhwyddineb
6-7	ei fynegi ei hun yn dda heb lawer o oedi
4-5	dangos peth rhuglder ar brydiau'n unig
0-3	heb fod yn siarad yn rhugl
Deall y pwyntiau allweddol (hyd at 10 marc)	
Mae 5 pwynt allweddol ymhob erthygl.	
Bydd gan bob erthygl gynllun marcio manwl yn nodi'r pwyntiau hyn.	
Dyfernir 2 farc am bob pwynt allweddol a esbonnir yn llawn.	
Dyfernir 1 marc am bob pwynt allweddol a esbonnir yn rhannol neu mewn achosion lle codir brawddegau cyfan o'r erthygl ei hun.	
Rhan 2 – Hunanbortread	20 marc
Cywirdeb	
8-10	siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson
6-7	siarad yn gywir gan amlaf
4-5	dweud rhai brawddegau cywir yn unig
0-3	siarad yn wallus neu'r ynganu'n ymyrryd â dealltwriaeth
Ystod	
8-10	defnyddio amrywiaeth eang o gystrawennau a geirfa, dan reolaeth lwyr
6-7	defnyddio amrywiaeth o gystrawennau a geirfa addas
4-5	defnyddio rhai cystrawennau gwahanol a geirfa gyfyng
0-3	defnyddio ystod gyfyng iawn o gystrawennau a geirfa, neu heb fod dan reolaeth

Rhan 3 – Pwnc llosg 30 marc	
Cywirdeb	
8-10	siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson
6-7	siarad yn gywir gan amlaf
4-5	dweud rhai brawddegau cywir yn unig
0-3	siarad yn wallus neu'r ynganu'n ymyrryd â dealltwriaeth
Rhyngweithio	
8-10	ymateb i bwyntiau'r cyfwelydd a gofyn barn yn gwbl ddiraffferth
6-7	ymateb yn briodol i bwyntiau'r cyfwelydd a gofyn barn yn briodol ar y cyfan
4-5	ymateb yn briodol ar brydiau, heb ddeall un neu ddau o bwyntiau'r cyfwelydd, neu heb lwyddo i ofyn barn yn briodol
0-3	ymateb yn elfennol, heb ddeall nifer o bwyntiau'r cyfwelydd neu heb ofyn barn o gwbl
Pwyso a mesur dadleuon	
8-10	yn pwyso a mesur dadleuon neu safbwyntiau'n gwbl ddiraffferth
6-7	yn pwyso a mesur dadleuon yn dda ar y cyfan
4-5	yn pwyso a mesur dadleuon ar lefel syml yn unig
0-3	heb lwyddo i bwysu a mesur dadleuon
Rhan 4 – Siarad o brofiad 30 marc	
Cywirdeb	
8-10	siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson
6-7	siarad yn gywir gan amlaf
4-5	dweud rhai brawddegau cywir yn unig
0-3	siarad yn wallus neu'r ynganu'n ymyrryd â dealltwriaeth
Estyn	
8-10	estyn ymatebion gan gydlynu'n ddiraffferth
6-7	estyn ymatebion gan gydlynu'r hyn a ddywed yn dda gan amlaf
4-5	estyn rhai ymatebion, ond angen cymorth cydsgwrsiwr
0-3	ymateb yn gwta, ac angen llawer o gymorth cydsgwrsiwr
Cyflawni gofynion y dasg (hyd at 10 marc)	
Mae 5 o ofynion yn rhan o'r sbardun.	
Dyfernir 2 farc am bob un o'r gofynion a gyflawnir yn llawn ac yn ddiraffferth.	
Dyfernir 1 marc am bob un o'r gofynion a gyflawnir yn rhannol.	
Argraff 10 marc	
8-10	siarad â menter, dychymyg neu dreiddgarwch
6-7	siarad yn dda, â rhywfaint o wreiddioldeb neu ddyfnder
4-5	siarad yn syml neu'n cadw at ymadroddion parod
0-3	siarad yn elfennol neu'n oediog, heb greu argraff dderbyniol ar y gwrandäwr
Seilir y marc argraff ar y prawf siarad yn gyfan, nid un rhan benodol.	

Atodiad B

Grid Asesu Ysgrifennu 60 marc

Mae'r ymgeisydd yn gallu gwneud yr isod:

Rhan 1 – Llythyr yn y cywair ffurfiol	30 marc
Rhan 2 – Erthygl neu Adolygiad	30 marc
Cywirdeb	
8-10	ysgrifennu'n raenus ac yn y cywair priodol yn gyson
6-7	ysgrifennu'n dda a'r cywair yn briodol ar y cyfan
4-5	ysgrifennu rhai brawddegau'n gywir yn unig
0-3	ysgrifennu'n wallus iawn
Ystod	
8-10	defnyddio amrywiaeth eang o gystrawennau a geirfa'n gwbl bwrpasol
6-7	defnyddio amrywiaeth o gystrawennau a geirfa addas
4-5	defnyddio rhai cystrawennau gwahanol a geirfa gyfyng
0-3	defnyddio ystod gyfyng iawn o gystrawennau a geirfa
Cyflawni gofynion y dasg (hyd at 6 marc)	
Mae 3 o ofynion yn rhan o'r sbardun.	
Dyfernir 2 farc am bob un o'r gofynion a gyflawnir yn llawn ac yn ddiraffferth.	
Dyfernir 1 marc am bob un o'r gofynion a gyflawnir yn rhannol.	
Argraff (hyd at 4 marc)	
4	ysgrifennu â menter, dychymyg neu dreiddgarwch
3	ysgrifennu'n dda, â rhywfaint o wreiddioldeb neu ddyfnder
2	ysgrifennu'n syml ar y cyfan neu'n cadw at ymadroddion parod
1	ysgrifennu'n elfennol
0	heb greu argraff dderbyniol ar y darlennydd

Atodiad C

Fframwaith Ewrop (CEFR)

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i gyfateb yn fras â lefel B2 yn Fframwaith Cyffredin Ewrop (CEFR).¹ Isod, ceir tabl yn amlinellu'r disgrifyddion sydd fwyaf perthnasol i'r ymgeiswyr hyn, ar lefelau B2 uchaf ac isaf. Yn y blychau llwyd, ceir enghreifftiau o sut yr amlygir y disgrifyddion hynny yn yr arholiad Uwch.

GWRANDO (B2)

<p>Cyffredinol B2 uchaf</p> <p>Yn gallu deall iaith lafar safonol, yn fyw neu wrth ei darlledu, ar bynciau cyfarwydd ac anghyfarwydd y deuir ar eu traws fel arfer mewn bywyd personol, cymdeithasol, academiaidd neu alwedigaethol. Dim ond sŵn cefndir eithafol, strwythur disgwrs annigonol a/neu ddefnydd o briod-ddulliau sy'n effeithio ar y gallu i ddeall.</p> <p>B2 isaf</p> <p>Yn gallu deall prif syniadau mewn darn o iaith lafar sy'n gymhleth o safbwynt cynnwys ac iaith, ar bynciau diriaethol a haniaethol a draddodir mewn iaith safonol, gan gynnwys trafodaethau technegol yn ei faes/ei maes arbenigol. Yn gallu dilyn darn estynedig o iaith lafar, a llinynnau trafod cymhleth, cyhyd bod y pwnc yn weddol gyfarwydd a chyfeiriad y sgwrs wedi'i fynegbostio â marciau clir.</p>
<p>Mae'r prawf Gwrando'n cynnwys iaith lafar, safonol ddilys yn ymwneud â phynciau cyfarwydd ac anghyfarwydd.</p>
<p>Deall sgwrs rhwng siaradwyr brodorol B2 uchaf</p> <p>Yn gallu dilyn sgwrs fywiog rhwng siaradwyr brodorol. Â rhywfaint o ymdrech yn gallu dal llawer o'r hyn a ddywedir o'i gwmpas/o'i chwmpas, ond yn cael peth traferth cyfranogi'n effeithiol lle bo llawer o siaradwyr brodorol nad ydynt yn addasu'u hiaith mewn unrhyw ffordd.</p>
<p>Mae Rhan 3 yn y prawf Gwrando'n cynnwys trafodaeth/sgwrs fywiog rhwng siaradwyr brodorol.</p>
<p>Deall fel aelod o gynulleidfa B2</p> <p>Yn gallu dilyn hanfodion darlithiau, sgysiau ac adroddiadau a ffurfiau eraill ar gyflwyniadau academiaidd proffesiynol sy'n gymhleth o safbwynt cynnwys ac iaith.</p>
<p>Mae Rhannau 1 a 2 yn y prawf Gwrando'n cynnwys testun lled ffurfiol ar bynciau sy'n gymhleth o safbwynt cynnwys ac iaith.</p>
<p>Gwrando ar gyhoeddiadau a chyfarwyddiadau B2</p> <p>Yn gallu deall cyhoeddiadau a negeseuon ar bynciau diriaethol a haniaethol a gyflwynir mewn iaith safonol ar gyflymder normal.</p>
<p>Trafodir pynciau haniaethol yn y prawf Gwrando, mewn darnau dilys ar gyflymder naturiol.</p>
<p>Gwrando ar gyfryngau clywedol a recordiadau B2 uchaf</p> <p>Yn gallu deall recordiadau mewn iaith safonol y mae'n debygol o ddod ar eu traws mewn bywyd cymdeithasol, academiaidd neu alwedigaethol, ac adnabod safbwyntiau ac agweddau</p>

¹ Cyfeirir at y fersiwn Saesneg, sef 'Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment' 2001, Cyngor Ewrop, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Caergrawnt.

<p>siaradwr yn ogystal â'r cynnwys ffeithiol.</p> <p>B2 isaf</p> <p>Yn gallu deall y rhan fwyaf o raglenni dogfen ar y radio a'r rhan fwyaf o ddeunydd a recordir neu a ddarlledir pan fydd yn cael ei gyflwyno mewn iaith safonol, ac yn gallu adnabod hwyl y siaradwr, tŷn ac ati.</p>
<p>Defnyddir darnau dilys o'r radio, a disgwylir i ymgeiswyr adnabod safbwyntiau ac agweddau, yn ogystal â chynnwys ffeithiol.</p>
<p>Gwyllo teledu a ffilmiau</p> <p>B2</p> <p>Yn gallu deall y rhan fwyaf o newyddion y teledu a rhaglenni materion cyfoes.</p> <p>Yn gallu deall rhaglenni dogfen, cyfweiliadau byw, rhaglenni sgwrsio, dramâu a'r rhan fwyaf o ffilmiau mewn iaith safonol.</p>
<p>Mae cyfle i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall rhaglenni, ffilmiau neu ddramâu yn y tasgau trafod. Defnyddir rhaglenni radio dilys lle bo modd yn y prawf gwrando, gan gynnwys cyfweiliadau byw a rhaglenni sgwrsio.</p>
<p>Adnabod sbardunau a chasglu</p> <p>B2</p> <p>Yn gallu defnyddio strategaethau amrywiol i ddod i ddealltwriaeth, yn cynnwys gwrando am brif bwyntiau; gwirio dealltwriaeth drwy ddefnyddio cliwiau o'r cyd-destun.</p>
<p>Mae rhai cwestiynau yn y prawf Gwrando'n gorfodi ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth trwy gasglu a defnyddio cliwiau o'r cyd-destun ehangach i allu ateb yn gywir.</p>

SIARAD

<p>Cyffredinol (Cynhyrchu)</p> <p>B2 uchaf</p> <p>Yn gallu rhoi disgrifiadau a chyflwyniadau wedi eu datblygu'n drefnus, gan amlygu pwyntiau arwyddocaol priodol, a manylion cefnogi perthnasol.</p> <p>B2 isaf</p> <p>Yn gallu rhoi disgrifiadau a chyflwyniadau wedi eu datblygu'n drefnus ar amrediad eang o bynciau yn berthnasol i'w faes/i'w maes diddordeb, gan ymestyn syniadau a'u cefnogi gyda phwyntiau eilaidd ac enghreifftiau perthnasol.</p>
<p>Mae disgwyl i ymgeiswyr ymateb trwy ddisgrifio ac adrodd profiadau yn ystod y prawf Siarad. Asesir gallu'r ymgeisydd i estyn ymatebion a siarad yn gydlynus.</p>
<p>Monolog Estynedig: disgrifio profiad (Cynhyrchu)</p> <p>B2</p> <p>Yn gallu rhoi disgrifiadau clir a manwl ar amrediad o bynciau'n ymwneud â'i faes/â'i maes diddordeb.</p> <p><i>gw. hefyd B1:</i></p> <p><i>Yn gallu rhoi disgrifiad uniongyrchol o amrywiaeth o bynciau o fewn ei faes/ei maes diddordeb.</i></p> <p><i>Yn gallu adrodd stori neu ddisgrifiad yn weddol rugl fel cyfres linol o bwyntiau.</i></p> <p><i>Yn gallu disgrifio profiadau'n fanwl, a theimladau ac ymatebion.</i></p> <p><i>Yn gallu sôn am fanylion digwyddiadau nas rhagwelwyd, e.e. damwain.</i></p> <p><i>Yn gallu esbonio plot llyfr neu ffilm a disgrifio'i ymateb/ei hymateb.</i></p> <p><i>Yn gallu disgrifio breuddwydion, gobeithio ac uchelgeisiau.</i></p> <p><i>Yn gallu disgrifio digwyddiadau real neu ddychmygol.</i></p> <p><i>Yn gallu dweud stori.</i></p>
<p>Rhaid i ymgeiswyr roi disgrifiadau clir a manwl o brofiadau neu faterion cymhleth, haniaethol yn ystod y prawf Siarad. Mae gofynion lefel B1, e.e. sôn am blot llyfr neu ffilm a disgrifio ymateb, ymhlyg yn y tasgau trafod.</p>
<p>Monolog Estynedig: cyflwyno achos, e.e. mewn dadl (Cynhyrchu)</p>

<p>B2 uchaf Yn gallu datblygu dadl yn drefnus gan amlygu pwyntiau'n briodol, a manylion perthnasol i'w chefnogi.</p> <p>B2 isaf Yn gallu datblygu dadl glir, gan ehangu safbwyntiau a'u cefnogi'n estynedig gyda phwyntiau eilaidd ac enghreifftiau perthnasol. Yn gallu adeiladu dadl gydlynus resymegol. Yn gallu esbonio safbwynt ar bwnc llosg gan roi manteision ac anfanteision dewisiadau gwahanol.</p>
<p>Mae disgwyl i ymgeiswyr drafod pwnc llosg yn ystod y prawf siarad ac asesir eu gallu i gyfeirio at safbwyntiau neu ddadleuon gwahanol.</p>
<p>Cyhoeddiadau cyhoeddus (Cynhyrchu) B2 Yn gallu rhoi cyhoeddiadau ar y rhan fwyaf o bynciau cyffredinol gyda rhywfaint o eglurder a rhuglder yn fyrfyfyr heb achosi straen nac anghyfleustra i'r gwrandawr.</p>
<p>Nid oes cyfle i ddangos y sgiliau hyn yn yr arholiad, ac nid yw'r 'parth cyhoeddus' mor berthnasol i anghenion yr ymgeiswyr tebygol.</p>
<p>Cyfarch cynulleidfaoedd B2 uchaf Yn gallu rhoi cyflwyniad clir, wedi'i ddatblygu'n drefnus, gan amlygu pwyntiau arwyddocaol a phwyntiau perthnasol i'w gefnogi. Yn gallu siarad yn fyrfyfyr gan adael testun a baratowyd a chan ddilyn pwyntiau diddorol a godir gan aelodau o'r gynulleidfa, yn aml gan ddangos rhuglder arbennig a rhwyddineb mynegiant.</p> <p>B2 isaf Yn gallu rhoi cyflwyniad clir wedi'i baratoi, gan roi rhesymau o blaid neu yn erbyn safbwynt arbennig, gan roi manteision ac anfanteision dewisiadau gwahanol. Yn gallu ateb cyfres o gwestiynau dilynol yn weddol rugl a byrffyr, heb roi straen arno/arni'i hun na'r gynulleidfa.</p>
<p>Rhaid i ymgeiswyr estyn ymatebion yn fyrffyr mewn ymateb i gwestiynau gan gyfwelydd. Asesir rhuglder a rhwyddineb y mynegiant yn ogystal ag agweddau eraill.</p>
<p>Siarad cyffredinol (rhyngweithio) B2 uchaf Yn gallu defnyddio'r iaith yn rhugl, yn gywir ac yn effeithiol ar ystod eang o bynciau cyffredinol, academaidd, galwedigaethol neu hamdden, gan farcio'r perthnasau rhwng syniadau'n glir. Yn gallu cyfathrebu'n fyrffyr â rheolaeth ramadegol dda, heb lawer o orfod cyfyngu ar yr hyn y mae'n ei ddweud, gan ddefnyddio ffurfioldeb lle bo'n briodol i'r amgylchiadau.</p> <p>B2 isaf Yn gallu rhyngweithio'n weddol rugl a byrffyr sy'n gwneud rhyngweithio rheolaidd, ac ymwneud cyson â siaradwyr brodorol yn ddigon posibl, heb roi straen ar y naill na'r llall. Yn gallu amlygu arwyddocâd personol digwyddiadau a phrofiadau, cyfiawnhau safbwyntiau a'u cynnal yn glir trwy roi esboniadau a dadleuon perthnasol.</p>
<p>Asesir rhuglder a chywirdeb yr ymgeisydd yn y prawf Siarad. Rhaid trafod ystod eang o bynciau cymhleth a haniaethol. Mae'r ymgeisydd yn gorfod ymateb yn fyrffyr wrth drafod â'r cyfwelydd ac yn y tasgau trafod a gyflwynir ymlaen llaw.</p>
<p>Deall siaradwr brodorol mewn sgwrs B2 Yn gallu deall yr hyn a ddywedir wrtho/wrthi mewn iaith safonol yn fanwl, hyd yn oed mewn amgylchedd swnllyd.</p>
<p>Mae disgwyl i'r ymgeisydd ddeall iaith lafar naturiol a Chymraeg mwy ffurfiol yn y prawf Gwranddo ac yn y prawf Siarad.</p>

Sgwrsio

B2

Yn gallu cymryd rhan mewn sgwrs estynedig ar y rhan fwyaf o bynciau cyffredinol mewn ffordd sy'n amlwg yn gyfranogol, hyd yn oed mewn amgylchedd swnllyd.

Yn gallu cynnal perthynas â siaradwyr brodorol heb achosi difyrwch nac annifyrrwch iddynt yn anfwriadol, a heb fod angen iddynt ymddwyn mewn modd gwahanol i'r modd y byddent yn ymddwyn gyda siaradwyr brodorol.

Yn gallu cyfleu graddau emosiwn, ac amlygu arwyddocâd personol digwyddiadau a phrofiadau.

Noder un o ddisgrifiyddion B1 hefyd:

Yn gallu bwrw i sgysiau ar bynciau cyfarwydd heb baratoi.

Rhaid i ymgeisydd siarad â siaradwr iaith gyntaf (neu 'frodorol') yn ystod y tasgau trafod, ac mae'r rhain yn drafodaethau estynedig lle bo disgwyl i'r ymgeisydd gyfrannu'n helaeth ac yn fyrfyfyr.

Trafod anffurfiol (gyda ffrindiau)

B2 uchaf

Yn gallu dilyn sgwrs fywiog rhwng siaradwyr brodorol.

Yn gallu mynegi ei syniadau a'i safbwyntiau'n fanwl, gan gyflwyno llinynnau dadl cymhleth ac ymateb iddynt ag argyhoeddiad.

B2 isaf

Yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol mewn cyd-destunau cyfarwydd, gan wneud sylw, mynegi safbwynt yn glir, gan werthuso cynigion gwahanol, gwneud damcaniaethau ac ymateb iddynt.

Â rhywfaint o ymdrech, yn gallu dilyn y rhan fwyaf o'r hyn a ddywedir o'i gwmpas/o'i chwmpas mewn trafodaeth, ond efallai'n ei chael hi'n anodd cyfranogi'n effeithiol mewn trafodaeth â sawl siaradwr brodorol nad ydynt yn addasu eu hiaith mewn unrhyw ffordd.

Yn gallu cyfiawnhau ei safbwyntiau a'u cynnal mewn trafodaeth, gan roi esboniadau perthnasol, dadleuon a sylwadau.

Yn ystod y prawf Siarad a'r tasgau trafod, mae disgwyl i'r ymgeisydd gyfrannu at y drafodaeth a chyflwyno llinynnau dadl cymhleth, gan ymateb yn fyrfyfyr i'r hyn a ddywedir.

Trafod ffurfiol a chyfarfodydd

B2 uchaf

Yn gallu dilyn trafodaeth fywiog, gan adnabod dadleuon yn cefnogi safbwyntiau ac yn eu gwrthwynebu a gwneud hynny'n gywir.

Yn gallu mynegi ei syniadau a'i safbwyntiau yn fanwl, gan gyflwyno llinynnau dadl cymhleth ac ymateb iddynt ag argyhoeddiad.

B2 isaf

Yn gallu cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ffurfiol arferol ac anarferol.

Yn gallu dilyn trafodaeth ar faterion yn ymwneud â'i faes/â'i maes, deall yn fanwl y pwyntiau pwysig a amlygir gan y siaradwr.

Yn gallu cyfrannu, gan gyfiawnhau ei safbwynt a'i gynnal, gwerthuso cynigion gwahanol, gwneud damcaniaethau ac ymateb iddynt.

Rhaid i ymgeisydd ddilyn trafodaeth yn y prawf Gwranddo. Mae disgwyl i'r ymgeisydd gyfrannu at drafodaeth gan fynegi syniadau a safbwyntiau'n fanwl yn ystod y tasgau trafod a'r prawf siarad.

Cydweithredu i gyrraedd nod (e.e. trwsio car, trafod dogfen, trefnu digwyddiad)

B2

Yn gallu deall cyfarwyddiadau manwl yn ddibynadwy.

Yn gallu helpu datblygu gwaith trwy wahodd eraill i gyfranogi, i fynegi barn ac ati.

Yn gallu amlinellu mater neu broblem yn glir, gan ddyfalu am achosion neu oblygiadau, a chan bwysu a mesur manteision ac anfanteision dulliau gwahanol.

Nid asesir y nod hwn yn uniongyrchol, ond mae'n rhaid i ymgeisydd bwysu a mesur manteision neu anfanteision (neu safbwyntiau gwahanol) ar bwnc cymhleth, haniaethol yn

ystod y prawf Siarad.
<p>Trosglwyddo gwybodaeth i gael nwyddau a gwasanaethau B2 uchaf Yn gallu ymdopi'n ieithyddol wrth ddatrys anghydfod fel cosb gyrru anhaeddiannol, cyfrifoldeb ariannol am ddifrod mewn fflat, y bai am ddamwain. Yn gallu amlinellu'r achos dros hawlio iawndal, gan ddefnyddio iaith berswadio i hawlio boddhad a datgan y cyfyngiadau ar yr hyn y mae'n fodlon ildio arno yn glir.</p> <p>B2 isaf Yn gallu esbonio problem a gododd a'i gwneud yn glir bod rhaid i ddarparwr y gwasanaeth neu'r cwsmer ildio.</p>
Nid asesir y nod hwn yn uniongyrchol.
<p>Cyfnewid gwybodaeth B2 uchaf Yn gallu deall gwybodaeth gymhleth a chynghor ar yr ystod lawn o faterion yn ymwneud â'i swydd, a'u cyfnewid.</p> <p>B2 isaf Yn gallu trosglwyddo gwybodaeth fanwl yn ddibynadwy. Yn gallu rhoi disgrifiad clir, manwl am sut i gyflawni gweithgaredd. Yn gallu crynhoi gwybodaeth a dadleuon ac adrodd amdanynt o ffynonellau niferus.</p>
Rhaid i ymgeisydd gyfnewid gwybodaeth am faterion cymhleth a haniaethol yn ystod y prawf Siarad, a gall hynny gynnwys y parth gwaith, (e.e. rhan 1 y prawf Siarad).
<p>Cyfweld a chael eich cyfweld B2 uchaf Yn gallu cynnal cyfweiliad effeithiol rhugl, gan droi'n fyrfyfyr oddi wrth y sgript a chwestiynau a baratowyd, olrhain ymatebion diddorol a stilio.</p> <p>B2 isaf Yn gallu gafael yn y ffrwynau mewn cyfweiliad, gan ehangu syniadau a'u datblygu heb fawr o help na phrociog gan gyfwelydd.</p>
Mae disgwyl i'r ymgeisydd <i>lywio</i> 'r drafodaeth yn y tasgau trafod, gan holi a chynnig sgilymatebion.
<p>Cymryd eich tro B2 Yn gallu ymyrryd yn briodol mewn trafodaeth, gan ddefnyddio iaith briodol wrth wneud hynny. Yn gallu dechrau disgwrs, ei gynnal a'i gloi'n briodol, gan gymryd ei dro/ei thro'n briodol. Yn gallu dechrau disgwrs, cymryd ei dro/ei thro lle bo'n briodol a gorffen sgwrs pryd bydd angen arno/arni, er nad yw'n gwneud hynny'n gwbl esmwyth. Yn gallu defnyddio ymadroddion stoc (e.e. 'Mae hynny'n gwestiwn anodd ei ateb.') i ennill amser a chadw tro wrth ffurfio rhywbeth i'w ddweud.</p>
Mae disgwyl i'r ymgeisydd allu cymryd rhan mewn trafodaeth, a gwneud hynny mewn ffordd briodol wrth gyfrannu a chymryd ei dro.
<p>Cydweithredu B2 Yn gallu rhoi adborth, gosodiadau dilynol a chasgliadau gan helpu datblygu'r drafodaeth. Yn gallu helpu datblygu'r drafodaeth ar dir cyfarwydd, gan gadarnhau dealltwriaeth, gwahodd eraill i gyfrannu, ac ati.</p>
Nid asesir y nod hwn yn uniongyrchol, ond mae cyfrannu at drafodaeth gan holi a gwahodd cyfraniad yn cael ei asesu dan 'rhyngweithio'.
<p>Gofyn am eglurhad B2 Yn gallu gofyn cwestiynau dilyn i wirio bod rhywun wedi deall, a'i fod/a'i bod wedi deall beth</p>

roedd siaradwr yn bwriadu'i ddweud a chael eglurhad ar bwyntiau amwys.

Nid asesir y nod hwn yn uniongyrchol.

DARLLEN

Cyffredinol

B2

Yn gallu darllen yn annibynnol i raddau helaeth, gan addasu dull a chyflymdra darllen i fathau gwahanol o destun a dibenion, gan ddefnyddio ffynonellau cyfeirio'n briodol. Yn meddu ar eirfa ddarllen weithredol eang, ond efallai'n cael peth trafferth ag eitemau a ddefnyddir yn anaml.

Mae disgwyl i ymgeisydd allu darllen testunau o fathau gwahanol a ysgrifennwyd at ddibenion gwahanol.

Darllen gohebiaeth

B2

Yn gallu darllen gohebiaeth yn ymwneud â'i faes/â'i maes diddordeb a deall yr ystyr hanfodol yn hawdd.

Mae rhan 2 y prawf Darllen yn gofyn i'r ymgeisydd ddeall gohebiaeth gymhleth ei natur ac adnabod safbwynt yr awduron.

Darllen er mwyn cael hyd i'ch lle (Reading for Orientation)

B2

Yn gallu sganio drwy destunau hir a chymhleth, gan gael hyd i fanylion perthnasol. Yn gallu adnabod cynnwys a pherthnasedd eitemau newyddion, erthyglau ac adroddiadau ar ystod eang o bynciau proffesiynol, gan benderfynu a oes angen astudio ymhellach.

Mae rhai eitemau yn y prawf Darllen yn gofyn i ymgeiswyr gael hyd i ffeithiau neu fanylion arwyddocaol.

Darllen i gael gwybodaeth a deall dadl

B2 uchaf

Yn gallu cael hyd i wybodaeth, syniadau a safbwyntiau o ffynonellau arbenigol iawn o fewn ei faes/ei maes.

Yn gallu deall erthyglau arbenigol y tu allan i'w faes/i'w maes, cyhyd ag y bo'n gallu defnyddio geiriadur yn achlysurol i gadarnhau sut i ddehongli termau.

B2 isaf

Yn gallu deall erthyglau ac adroddiadau sy'n ymwneud â phroblemau cyfoes lle mae'r awduron yn mynegi safbwyntiau.

Nid asesir y nod hwn yn uniongyrchol, fodd bynnag, asesir sgiliau darllen a chrynhoi'r ymgeisydd yn rhan 2 y prawf Siarad, lle bo rhaid deall erthygl arbenigol, gymhleth ei natur. Caniateir geiriadur yn y cyfnod paratoi.

Darllen cyfarwyddiadau

B2

Yn gallu deall cyfarwyddiadau hir a chymhleth yn ei faes, yn cynnwys manylion ar amodau a rhybuddion, cyhyd ag y bo'n gallu ailddarllen rhannau anodd.

Nid asesir y nod hwn yn uniongyrchol.

Prosesu testun

B2

Yn gallu crynhoi ystod eang o destunau ffeithiol a dychmygus, gan wneud sylw ar safbwyntiau cyferbyniol a'u trafod a'r prif themâu.

Yn gallu crynhoi darnau o'r newyddion, cyfweliadau neu raglenni dogfen yn cynnwys barn, dadl a thrafodaeth.

Yn gallu crynhoi plot a chyfres o ddigwyddiadau mewn ffilm neu ddrama.

Mae'r cwestiynau yn y prawf Darllen yn gofyn i'r ymgeisydd ddeall testun cymhleth ei natur mewn cyweiriau gwahanol. Mae rhan 2 y prawf Siarad yn gofyn i'r ymgeisydd *grynhoi* pwyntiau allweddol mewn testun.

YSGRIFENNU

Ysgrifennu Cyffredinol (cynhyrchiol)

B2

Yn gallu ysgrifennu testunau manwl, clir ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w faes/i'w maes diddordeb, gan *grynhoi* gwybodaeth a dadleuon o nifer o ffynonellau a'u gwerthuso.

Mae'r prawf Ysgrifennu'n gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu testunau o fathau amrywiol ar bynciau cymhleth neu haniaethol.

Ysgrifennu creadigol (cynhyrchiol)

B2 uchaf

Yn gallu ysgrifennu disgrifiadau clir a manwl o ddigwyddiadau neu brofiadau real neu ddychmygol, gan farcio'r berthynas rhwng syniadau mewn testun clir cydlynus, gan ddilyn confensiynau sefydledig y *genre* dan sylw.

B2 isaf

Yn gallu ysgrifennu disgrifiadau clir, manwl ar amrywiaeth o bynciau yn gysylltiedig â'i faes/â'i maes diddordeb.

Yn gallu ysgrifennu adolygiad o ffilm, llyfr neu ddrama.

Nid asesir ysgrifennu creadigol yn uniongyrchol; fodd bynnag, mae rhan 2 y prawf Ysgrifennu'n gofyn i ymgeisydd lunio adolygiad (B2 isaf).

Adroddiadau a thraethodau (cynhyrchiol)

B2 uchaf

Yn gallu ysgrifennu traethawd neu adroddiad sy'n datblygu dadl yn drefnus, gan amlygu pwyntiau arwyddocaol yn briodol ac yn ei gefnogi â manylion perthnasol.

Yn gallu gwerthuso syniadau gwahanol neu ffyrdd o ddatrys problem.

B2 isaf

Yn gallu ysgrifennu traethawd neu adroddiad sy'n datblygu dadl, gan roi rhesymau o blaid neu yn erbyn safbwynt penodol, gan esbonio manteision ac anfanteision dewisiadau gwahanol.

Yn gallu crynhoi gwybodaeth a dadleuon o nifer o ffynonellau.

Mae rhan 2 y prawf Ysgrifennu'n gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu adroddiad sy'n datblygu dadl ac yn cefnogi'r pwyntiau a godir.

Ysgrifennu cyffredinol (rhyngweithiol)

B2

Yn gallu mynegi newyddion a safbwyntiau'n effeithiol wrth ysgrifennu a chyfleu safbwyntiau eraill.

Mae sbardunau'r prawf Ysgrifennu'n gofyn i ymgeiswyr allu ymateb i safbwyntiau eraill ac ysgrifennu at ddibenion rhyngweithiol penodol.

Gohebiaeth

B2

Yn gallu ysgrifennu llythyrau'n cyfleu graddau gwahanol o emosiwn, gan amlygu arwyddocâd personol digwyddiadau a phrofiadau, gan roi sylwadau ar newyddion a safbwyntiau'r sawl y gohebir ag ef/hi.

Mae Rhan 1 y prawf Ysgrifennu'n gofyn am lythyr sy'n cynnwys sbardunau penodol.

GRAMADEG

Ystod gyffredinol

<p>B2 uchaf Yn gallu ei fynegi ei hun/ei mynegi ei hun yn glir heb lawer o arwyddion o orfod cyfyngu ar yr hyn a ddywedir.</p> <p>B2 isaf Yn meddu ar ystod ddigonol o iaith i allu rhoi disgrifiadau clir, mynegi safbwyntiau a datblygu dadleuon heb lawer o chwilio am eiriau mewn ffordd amlwg, gan ddefnyddio rhai ffurfiau brawddeg cymhleth i wneud hynny.</p>
<p>Mae 'ystod' yn un o'r meini prawf ac mae disgwyl i'r ymgeisydd feddu ar ddigon o eirfa a gwybodaeth ramadegol i'w fynegi ei hun heb gyfyngu fawr ddim ar yr hyn a ddywedir.</p>
<p>Ystod geirfa B2 Yn meddu ar ystod dda o eirfa ar gyfer materion sydd yn gysylltiedig â'i faes/â'i maes a'r rhan fwyaf o bynciau cyffredinol. Yn gallu amrywio fformwlâu i osgoi ailadrodd mynych, ond gall bylchau geirfa achosi peth oedi ac aralleirio.</p>
<p>Asesir 'ystod' yn y profion cynhyrchiol, a hynny'n cynnwys geirfa a defnyddio geirfa'n briodol.</p>
<p>Rheolaeth dros eirfa B2 Mae cywirdeb geirfa yn uchel yn gyffredinol, er gall peth ddryswch a chamddefnydd o eiriau ddigwydd, heb amharu ar gyfathrebu.</p>
<p>Fel yr uchod, asesir <i>pridoldeb</i> yr eirfa yn y profion cynhyrchiol.</p>
<p>Cywirdeb gramadegol B2 uchaf Rheolaeth ramadegol dda; gall rhai camsyniadau achlysurol neu wallau nad ydynt yn systematig, a rhai mân frychau yn strwythurau brawddeg ddigwydd o hyd, ond maent yn brin a gellir eu cywiro'n aml wrth edrych yn ôl.</p> <p>B2 isaf Yn dangos rheolaeth gymharol uchel ar ramadeg. Ddim yn gwneud camgymeriadau sy'n arwain at gamddealltwriaeth.</p>
<p>Asesir cywirdeb yn y profion cynhyrchiol, ac mae'r prawf Gwybodaeth o iaith yn canolbwyntio ar frychau a chamgymeriadau cyffredin er mwyn hybu hunangywiro.</p>